506

# CERDD NEWYDD,

YN RHODDI

# HANES GWRAIG WEDDW,

A

# PHUMP O BLANT,

Y RHAI A

# NEWYNODD I FARWOLAETH.

Yr hon a fu yn byw yn Dale, yn Nghent, hyd farwolaeth ei gwr, ond hi a ddywedai wrth rai mai o Sir Benfro yr oedd o'i genedigaeth; yr ydym yn deall iddynt gael y wraig a phump o blant gwedi marw o Newyn, mewn 'Sgubor, wrth y ffordd gerllaw Quay Street, ar ddydd Iau, yr ail o Fis Mai, 1839.

Ar y dôn, "Bryniau'r Iwerddon."

1

Nesewch fy mwyn gyfeillion, rai tirion cydwrandewch,
Er trymed ydyw'r newydd, ar gynydd yma gewch,
Sef hanes am wraig weddw, a phump o blant yn wir
Newynodd i farwolaeth, yn Nghent, medd geiriau gwir.

2

Bu hon mewn hir galedi, medd hanes i ni 'nawr,
Rol dydd ei gwr daeth arni, mae'n wir dylodi mawr,
At fagu ei phlant ymdrechodd, gael help oddiwrth y plwy
Ei chais ni fu ond ofer, un ddimau ni chaent hwy.

X205230627

3

Ond dweyd caent fyn'd i'r *Workhousc*, os ewyllysiau'r
fam,
A hithau oedd yn ofni rhag byddai i'w phlant gael cam :
Hi ddywedodd, os câf ychydig, tuag adre'n ddiddig 'râf,
Os na chaf ddim 'rwy'n ofni, mai newynu'n wir a wnaf.

4

'Rol bod yn hir yn crefu am help i fagu ei phlant,
Ni chafodd yn ei heisiau, ond ryw wâg eiriau gant,
Yn ol âi tua'i chartre, ei phlant â'u lliwiau'n llwyd,
A gwerthu ei gwely ddarfu, gael modd i brynu bwyd.

5

'Rol iddi ddarfod gwerthu, y celfi oedd ganddi gyd,
Mewn angen troi i fegian, a wnaeth ar hyd y byd,
Gan ddweyd gwell genyf starfio, wrth hir drafaelio'n
faith ;
Nag yr elwyf byth i'r *Workhouse*, na'm plant ymddifaid
'chwaith.

6

Un o Sir Benfro ydoedd, o'i genedigaeth clyw,
Ond hi fu draw yn Lloegr, ffynyddoedd rai yn byw ;
A meddwl wnaeth ryw ddiwrnod, am ddyfod i'w hen wlad
I wel'd ei mhwyn gyfeillion, ei thirion mam a'i thad.

7

A dechreu'i ffordd tua Chymru, wnaeth hi a'i theulu
bach,
Doedd hi na'i phlant mae'n ddiau, er's dyddiau'n ol yn
iach ;
Cyn cerdded deugain milldir, mae'n eglur i ni 'nawr,
Bu hi a'i phlant bach farw, trwm oedd eu gwedd a'u
gwawr.

8

Dydd Iau, sef Mai yr ailfed, medd hanes i ni ar g'odd
Hi a gafwyd mewn ysgubor, rhyw olwg sobr oedd ;

Gwel'd menyw a phum plentyn, oedd ddychryn mawr
i'r gwŷr,
Eu golwg oedd yn ddigon i doddi'r galon ddûr.

9

Ei chorph oedd wedi ei fwyta, mewn amryw fannau'n
wir,
Gan lygod medd barn dynion, nis gwyddom beth sy' wir,
Gwynebau'r plant a hithau, oedd wedi eu bwyta i gyd
Ni chawd y fath olygfa yn unrhyw barthau o'r byd.

10

Gwybyddwn Gwest y *Crowner*, rowd ar y cyrff yn siwr
Ac yno'n wir 'roedd trymder a galar ar bob gwr;
Y Cwest fel hyn a basiodd, a barnodd pawb yn hy,
Mai alaeth drom farwolaeth gaent o waeth newyn dû.

11

'Rol hyn yn fuan claddwyd, a rhoddwyd yn ddinam,
Y plant mewn bedd i orwedd 'run man a'r fwynaidd fam;
Maent heddyw mewn lle tawel, heb ryfel o un rhyw,
Y bedd mae'n wir yw'r annedd, tŷ diwedd pob dyn
byw.

12

Deg diwrnod fe a farnwyd, bu eu cyrph hwy heb eu
cael,
Wrth hyny gallwn ddeall, nad oedd eu gwedd ond gwael,
Eu bwyta wnaeth y llygod, O dyma drallod trist,
Eu gyddfau a'u hwynebau, i gyd o glust i glust.

13

Mae Lloegr gydâ Chymru, braidd oll â'u lliwiau'n
llwyd,
Gwlad sydd yn llawn o freintiau, trwm goddef eisiau
bwyd,
Er hyny mae lle i ofni, yn Nghymru wiw gu wedd,
Fod llawer o ran eisiau yn myn'd o'r byd i'r bedd.

14

Ac felly bu i'r weddw, o eisiau, farw clyw,
A'i phlant bach 'run ffunud, peth garw enbyd yw;
Os eu gorthrymu a'u poeni, ga'nt y'mysg teulu'r llawr
Gobeithio i'r rhan anfarwol, y'nghanol nef yn awr.

15

Wel, fwyn drigolion Cymru, tra b'om yn meddu braint,
Ymdrechwn hwyr a bore, am ran o noddfa'r Saint;
Sydd fry o fewn y nefoedd, y'mysg y lluoedd llon,
Yn canu am y gongcwest, heb daw y funud hon.

16

Os heb ddim golud bydol, yr ydym bobl bach,
Cael cyfoeth i'n heneidiau, i'r nef awn innau'n iach;
Cawn wedi'n yn oes oesoedd, o fewn y nefoedd wen,
Glodfori'r un o'i wirfodd, a'n prynodd ar y pren.

17

Yn y byd yma'n unig, mae ceisio'r meddyg mwyn
Yn awr yw'r amser goreu, yn ddiau im' ymddwyn;
I ba amgylchiad bynnag yr elom îs y nen,
Ymddiried yn Nuw'r cariad. O gwneled pawb, Amen.

EDWARD JONES.

DIWEDD.

T. Price, Argraffydd, Merthyr.